# YSGOL PEN BARRAS

## Polisi Lwfansau Llywodraethwyr

Mae’r polisi hwn wedi ei seilio ar Reoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 sydd yn caniatáu i lwfansau gael eu talu i Lywodraethwyr ac aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn aelodau llawn o’r Corff Llywodraethol.

Gellir gwneud taliadau am gostau hanfodol sydd wedi codi er mwyn i’r Llywodraethwr allu cyflawni eu dyletswyddau.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras wedi penderfynu peidio ag ad-dalu Llywodraethwyr am gostau a godi’r wrth ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau Llywodraethol. Er hyn, mewn sefyllfaoedd eithriadol, os yw’r Corff Llywodraethol yn cytuno telir costau teithio a chostau cynhaliaeth ar yr amod nad yw’n fwy na’r hyn a nodir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 100 o’r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.(Dyma’r cyfraddau a ddefnyddir i ad-dalu aelodau o’r Cyngor lleol).

Adolygwyd: 17/09/25

Cadeirydd y Llywodraethwyr – Huw Hilditch-Roberts

Dyddiad Adolygiad – Medi 2026